tafod elái

HYDREF 2017

Rhif 321

Pris 80c

Arweinydd ifanc Cymru

Llwyddodd Ethan Williams, Blwyddyn 13 Ysgol Gyfun Garth Olwg i gyrraedd y brig yng Ngwobrau Arwain Cymru 2017. Roedd tri wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghategori Arweinydd Ifanc a chyhoeddwyd enw'r enillydd mewn seremoni arbennig yng ngwesty'r Hilton, Caerdydd ddydd Iau, 21 Medi 2017. Nod y Gwobrau, a gafodd eu datblygu gan gonsortiwm o sefydliadau proffesiynol, cyrff gwirfoddol a chyhoeddus ynghyd â chwmnïau sector preifat, yw cydnabod a dathlu cyflawniad personol mewn arweinyddiaeth neilltuol yng Nghymru.

Dywedodd Ethan: "Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i holl staff a gweithwyr Yr Urdd sydd wedi gwneud fy amser gyda'r mudiad mor werth chweil. Dw i'n falch iawn o'r holl gyfleoedd y mae'r Urdd wedi eu rhoi i fi dros y blynyddoedd. Heb ymrwymiad a gwaith holl staff yr Urdd, yn sicr ni fyddwn yn dathlu'r wobr heddiw! Hoffwn ddweud diolch yn arbennig i Gwyndaf Lewis am yr enwebiad ac i holl aelodau Bwrdd Syr IfanC am eu cefnogaeth. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn at barhau i weithio gyda nhw yn ystod y flwyddyn i ddod. Diolch yn fawr."

(Parhad ar dudalen 9)

Cyfarfod Blynyddol

Tafod Elái

7.30yh, Nos Lun, 9 Hydref

Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf.

Prynwch eich copi o

Tafod Elái

£8 am y flwyddyn

Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol

neu 029 20890040

Cadair Penbedw

Lluniau Ceris Gruffudd

Llongyfarchiadau i Martin Huws, Ffynnon Taf ar ennill cadair hanesyddol Gŵyl y Gadair Ddu, Penbedw. Roedd yr Ŵyl yn dathlu can mlynedd ers Cadair Ddu y bardd Hedd Wyn a fu farw yn y Rhyfel Fawr cyn i'r Eisteddfod Genedlaethol cael ei chynnal ym Mhenbedw yn 1917. Y testun ar gyfer yr Awdl oedd 'Hedd Wyn'. Roedd y seremoni yng ngofal yr Archdderwydd, Geraint Lloyd Owen.

Bragdy Twt Lol

Ym mis Medi cynhaliwyd ail benwythnos agored Bragdy Twt Lol yn Nhrefforest. Sefydlwyd y bragdy dwy flynedd yn ôl gan Phillip Thomas o Gwm Rhymni. Mae'n bragu cwrw crefft ar raddfa fach er mwyn creu blas a dewis gwanhanol. Mae wedi dewis enwau diddorol ar gyfer y cynnyrch yn cynnwys Tŵti Ffrwti, Bwgan Brain, Dreigiau'r Diafol a Cwrw'r Arf Serchog. Mae'r cwrw ar gael mewn nifer o dafarndai lleol. Mae'r bragdy yn gwerthu dewis eang o gwrw mewn potel bob dydd Gwener 9 - 5. Ceir rhagor o fanylion ar eu gwefan www.twtlol.com.

Geraint Rees yn arwain Taith Gerdded
Pwyllgor Apêl yr Eisteddfod (tudalen 8)

Trip Ysgol Sul y Tabernacl i Fferm Folly, Sir Benfro
Gadawodd criw o blant a rhieni'r ysgol Sul yn blygeiniol i ddal y bws i Fferm Folly. Er gwaetha'r rhagolygon cawson ni ddiwrnod sych a braf – a digon o gyfle i werthfawrogi'r bywyd gwyllt. Y rhinoserws oedd ffefryn rhai o'r plant lleiaf er bod y llewod, camelod a'r cathod meer wedi gadael cryn argraff hefyd. Ar ol edmygu'r anifeiliad roedd cyfle i fwynhau yn y ffair – gyda rhai yn fwy mentrus na'i gilydd! Y ceir cyflym aeth a bryd y dewraf yn ein mysg tra bod eraill wedi mwynhau taith sidet ar yr olwyn fawr. Diwrnod cofiadwy yng nghwmni ffrindiau!

Derek Brockway yn cychwyn
Taith Gerdded Macmillan (tudalen 11)

O Dubai i Bodeds!

Wele Luned a'r teulu yn mwynhau drachtio o fedd Eisteddfod Môn eleni! Braf oedd cael sgwrs hefo Luned (Clement gynt) a Dave, Betsan Haf, Lea Mai ac Esther Gwenllian ar faes yr Eisteddfod ym mis Awst. Roedden nhw'n mwynhau 'wizzan rownd' Sir Fôn - a gweddill Cymru - y tro hwn yn hytrach na'r prysurdeb arferol yn eu bywyd bob dydd yn Dubai. Allan yno'n gweithio fel cyfrifydd arbenigol mae Dave, a Luned a'r merched yn cael cyfle i brofi bywyd tra gwahanol i'r hyn oedd ganddynt yma'n Creigiau. Ond nôl y dont rhyw ddydd - a bydd yn hyfryd cael mwy o'u hanes.

Colofn Blasus ac Iachus
(Tudalen 8)

Clwb Gwawr Crotesi Creigiau yn eu cyfarfod cyntaf y tymor ym mis Medi.
Cewch rhagor a fanylion ar eu tudalen Facebook.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Diwrnod Roald Dahl
Ddydd Mercher y 13eg o Fedi, mi fuom yn dathlu diwrnod Roald Dahl. Yn ystod y dydd, bu pob dosbarth yn gwneud gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar fywyd a gwaith yr awdur. Fe ymunodd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 â rhaglen fyw a drefnwyd gan "Puffin Live", gan ddysgu ffeithiau diddorol am Roald Dahl yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgaredd lluniadu dan ofal Quentin Blake

Croeso
Croeso mawr i'r disgyblion newydd sydd wedi ymuno â ni'n ddiweddar. Croeso hefyd i Mrs Sera Minton sydd wedi dechrau fel cynorthwy-ydd gyda ni.

Babi newydd
Llongyfarchiadau i Ms Amy Davies a'i phartner Bleddyn ar enedigaeth mab bychan - Dewi Siôn - ar ddiwedd mis Awst. Mae'r plant i gyd yn edrych mlaen yn fawr i'w weld!

Siarter Iaith
Bydd y disgyblion a'u rhieni'n clywed mwy am y Siarter Iaith dros y misoedd nesaf. Y nod yw cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn mynd am benwythnos i Langrannog ddiwedd mis Medi, felly bydd digon o gyfle iddyn nhw ymarfer eu Cymraeg wrth gymdeithasu a mwynhau.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Danywenallt
Cafodd Blwyddyn 6 amser gwych yn aros yng nghanolfan Danywenallt ym mis Medi. Bu'r plant a Mrs Cotter, Mrs Foster a Mr Evans wrth eu boddau yn adeiladu cysgodfeydd, astudio'r amgylchfyd a mwynhau taith gerdded heriol!

Croeso
Croeso i blant newydd y dosbarth Meithrin. Gobeithio eich bod wedi ymgartrefu erbyn hyn.

Siarter Iaith
Lansiwyd ein hymgyrch Siarter Iaith ym mis Medi gyda gwasanaeth arbennig gan y Cymry Cŵl ac ymddangosiad gan Sbarc a Seren. Awn ymlaen yn awr tuag at ennill y wobr efydd!

Cyngor Eco
Mae aelodau'r Cyngor Eco wedi cael eu hethol ac maent yn barod i ddechrau ar eu gwaith!!

Ail-gylchu dillad ysgol
Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod wrthi'n brysur yn casglu hen wisgoedd ysgol, er mwyn eu hail-gylchu. Llwyddwyd i gasglu nifer helaeth o fagiau du, da iawn chi.

Gwyn Robins, Creigiau, gyda aelodau Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru
(tudalen 5)

Clwb Hwyl Tabernacl

Hendrewennol

Ddydd Mawrth Awst y 1af daeth llwyth ohonom ynghyd i fynd ar antur i Hendrewennol. Roedd digonedd o bethau i wneud i bob oedran. Treuliodd yr oedolion eu hamser yn siarad yn hapus am oriau wrth i'r plant fynd i wneud helfa drysor a chwarae yn y bêls gwair. Roedd digon o ffrwythau ar gael i'w pigo, o fafon i fefus. Dwi'n siŵr bydd jam yn llifo allan o glustiau ambell aelod o'r Clwb Hwyl erbyn mis Medi. Uchafbwynt y diwrnod i rai oedd yr hufen iâ cartref!

(Brengain Rhys)

Sain Ffagan

Roedd Sain Ffagan wedi newid ers i ni fod yna ddiwethaf. Roedd mynedfa newydd, caffi a siop heb sôn am yr adeiladau hanesyddol. Cwrddon ni i gyd tu fas i'r tollborth a mentro i dalwrn y ceiliogod sydd fel hen fersiwn o stadiwm y Principality. Gwelsom ni y gof yn gwneud ei waith. Buon ni yn busnesu yng ngerddi Rhyd y Car, ac edrych ar y lluniau ar waliau eglwys Teilo Sant. Wrth gerdded allan cawson ni sioc wrth weld Ann Dixey yn ei cherbyd yn mynd ag ymwelwyr o gwmpas y safle. Dywedodd hi wrthon ni am fynd i weld datblygiad newydd - mae hen lys Llywelyn Fawr yn cael ei godi yno. Gobeithio y bydd wedi ei gwblhau erbyn i ni ymweld y tro nesaf. Er taw criw bychan ohonom ni oedd yno cawson ni hwyl.

(Gwenno, Ifan a Math Roberts)

Bryngarw

Trydedd daith yr haf aethon ni i Barc Bryn Garw. Parc Gwledig hyfryd ger Penybont. Tywydd braf, ffrindiau da, ac uchafbwynt y dydd oedd adeiladu pont cerrig dros yr afon. Cawsom ni hwyl a sbri!

(Awen Rhys)

Hendrewennol

Bryngarw

Gwynfor Dafydd yn Cylch Cadwgan
(tudalen 6)

Ieuan Jones (Piano) yn diddanu Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Band Nantgarw yn Noson Agoriadol Merched y Wawr
(Tudalen 5)

Cyfle i ddweud eich dweud

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Beth yw eich profiad chi o wasanaethau Cymraeg? Beth ddylai sefydliadau ei wneud er mwyn gwella'u gwasanaethau Cymraeg? Dewch i ymuno â grŵp trafod am baned a sgwrs.

Pierhead, Bae Caerdydd, 12/10/2017, 11:00-12:00

I gael gwybod mwy, neu i roi gwybod am anghenion dietegol, e-bostiwch post@comisiynyddygymraeg.cymru

#Hawliau

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
3–11 Awst 2018

Apêl am gyfraniadau a gwobrau ariannol i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018

Gyda Phrifwyl lwyddiannus newydd ei chynnal ym Môn, mae gwaith trefnu Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhelir rhwng 3 - 11 Awst flwyddyn nesaf yn y Bae yn prysuro ymlaen.

Mae cannoedd o wirfoddolwyr wedi bod yn gweithio ar y testunau yn ogystal â'r myrdd o weithgareddau sydd wedi ac yn cael eu trefnu i godi arian tuag at y targed o £320,000 a osodwyd i'r gronfa leol, sef cyfraniad dalgylch Caerdydd i'r gost o £4 miliwn a mwy sydd ei angen i gynnal yr ŵyl.

Medd Ashok Ahir, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith "Gyda llai na blwyddyn i fynd, mae'r apêl ariannol yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd, diolch i haelioni unigolion a gwaith arbennig y pwyllgorau apêl yn cynnal rasys i ddringo mynyddoedd, ac o drefnu gigs i gynnal te pnawn – mae pob digwyddiad nid yn unig yn gyfle i godi arian, ond maen nhw hefyd yn gyfle i ni gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen cryn dipyn o ymdrech eto a phob cymorth i sicrhau ein bod yn cyrraedd targed y gronfa leol i fedru cynnal prifwyl fydd yn cwrdd â disgwyliadau'r miloedd o ymwelwyr a ddaw i Gaerdydd o bob rhan o Gymru a thu hwnt flwyddyn nesaf".

Cynhaliwyd Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod ddiwedd Mehefin ar lawnt Neuadd y Ddinas, pryd cyflwynwyd y Rhestr Testunau, a diolch i bawb a fu'n rhan o lwyddiant yr achlysur. Ymhlith y testunau mae manylion nifer o roddion gwobrau tuag at y cystadlaethau amrywiol, a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Braf o beth fyddai cael y Rhaglen flwyddyn nesaf yn llawn o roddion gwobrau - tybed oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi?

Mae unigolion a sefydliadau yn medru cyfrannu a / neu gynnig gwobr am amrywiol resymau, sydd yn ffordd syml ond hynod effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod yn ogystal â phwyllgor apêl o ddewis y rhoddwr, gan fod y cyfraniadau (ac ad-daliad Rhodd Gymorth os yn gymwys) i gyd yn mynd ar gyfer y gronfa leol.

Mae cynnig gwobr yn syml iawn, gellir cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod trwy'r dudalen Gwobrau ar y wefan www.eisteddfod.cymru/gwobrau; dros y ffôn ar 0845 40 90 400 neu e bostio alwyn@eisteddfod.org.uk gyda'r manylion perthnasol. Mi fydd cyfraniadau a rhoddion gwobrau a dderbynnir cyn diwedd Ebrill 2018 yn sicr o ymddangos ar wefan yr Eisteddfod a'r Rhaglen swyddogol fydd ar gael erbyn diwedd Mehefin.

I wybod mwy am sut y gallwch gefnogi a chyfrannu at lwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, ewch i wefan yr Eisteddfod www.eisteddfod.cymru.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Aelod newydd i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru

Llongyfarchiadau mawr, Gwyn Robins, ar gael dy dderbyn yn aelod llawn o'r Gerddorfa eleni a chael y cyfle i deithio Cymru yn perfformio o dan arweiniad Carlo Rizzi. Roeddent yn chwarae darnau heriol iawn gan gynnwys dau gan Strauss sef Der Rosenkavalier a Till Eulenspiegel, Pedair Interlwt y Môr gan Britten a La Mer gan Debussy. Profiad a hanner, mae'n siwr! Yr holl ymarfer a'r sesiynau bore Sadwrn lawr yng Nghaerdydd wedi talu ar eu canfed. Dal ati i fwynhau, mae'n gyfle anhygoel!

Merched y Wawr - Y Garth
Noson Agoriadol

Mor, mor braf ydoedd profi a rhannu afiaith y naw cerddor ifanc, dawnus sy' gyda'i gilydd yn ffurfio **Band Nantgarw**! Buom ddigon ffodus nos Fercher, Medi'r 13eg i fwynhau set amrywiol o gerddoriaeth offerynnol, clocsio a chanu gwerin mewn lleoliad brofodd yn arbennig o safbwynt acwstics a gofod, sef Capel y Tabernacl yn Efail Isaf. Dechrau gwych i'n tymor - cefnogaeth dda - cwmni cynnes - a phaned a saig blasus i orffen. Diolch o galon i'r naw - sef Elisa a Rhys, Osian, Siwan, Harri, Meg ac Alys, Lewys a Rowan - a phob dymuniad da iddynt yn eu hastudiaethau ac fel Band yn y dyfodol. A diolch i Eifiona am drefnu a llywyddu!

Mis nesa bydd Catrin Stevens yn dod i'n hannerch - ei thestun bydd 'Lleisiau o lawr y ffatri'. Felly dewch yn llu i'r Ganolfan, Efail Isaf am 8 yr hwyr nos Fercher, Hydref 11eg. Dewch â ffrind!

Llongyfarchiadau mawr i . . .

. . . bobol ifanc y pentref gafodd ganlyniadau da yn eu harholiadau TGAU a Lefel 'A' eleni. Pob llwyddiant i chi wrth gychwyn ar bennod newydd yn eich bywydau! Boed waith neu astudiaethau!

. . . raddedigion newydd y pentref! Pob dymuniad da i chwithe wrth i chi brofi byd gwaith efallai neu astudiaethau pellach. Beth am rannu eich llwyddiant gyda ni - mis nesa - yn lle aros yn ddi-enw!

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

CLWB RYGBI

Braf adrodd fod y tîm cyntaf wedi ennill 3 gêm gyntaf y tymor ac fod gêm hynod o gyffrous o'i blaenau. Fe fydd Gilfach Goch a Thonyrefail yn uno nos Fercher 11 Hydref ar gyfer gêm yn erbyn y Mid District er cof am Wayne Banfied, swyddog ffyddlon i'r gêm rygbi lleol a rhanbarthol. Wayne a'i wraig Pat oedd yn rhedeg siop ffrwythau, llysiau a blodau yn Stryd Fawr Tonyrefail ac roedd eu caredigrwydd hael yn arbennig tuag at achlysuron codi arian, cymdeithasol ac ysgolion yn ddi baid.

Clwb Drama Wythnosol

Pob nos Iau yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg
5:30yh – 6:30yh (BL 4 a 5)
6:30yh – 7:30yh (BL 6 a 7)
£3.50 y sesiwn
Cysylltwch â
Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2017

Yn dilyn cyffro'r cystadlu ym Mhencoed ym mis Mai, bydd chwech o gystadleuwyr mwyaf addawol yr Eisteddfod o dan 25 oed yn ymgiprys am ysgoloriaeth sy' werth £4000. Cynhelir Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel ar nos Sadwrn, 14eg o Hydref yn Theatr Sony, 7/7.30 yr hwyr - sydd ar gampws Coleg Penybont.

Y chwech sydd yn cystadlu eleni fydd:

1. Daniel Calan Jones
2. Harry Lovell Jones
3. Sioned Llewelyn
4. Megan Llŷn
5. John Ieuan Jones
6. Cedron Siôn

Chwech artist o fri! Byddwch yn siwr o gael Cyngerdd i'w gofio! Os am fanylion tocynnau - cysylltwch â 0845 257 1639 Pob lwc i'r chwech! Ond Daniel Calan - byddwn ni tu ôl i ti! Gwna dy ore glas!

Apêl Eisteddfod Caerdydd

Noson o Adloniant
19 Hydref am 18:30
Neuadd Ysgol Creigiau
Yng nghwmni Cantorion Creigiau, Côr Ysgol Creigiau a thalentau lleol. Tocynnau £5 oedolion / plant am ddim gan telerij@yahoo.com neu drwy'r ysgol.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llwyddiant yn yr Eisteddfod
Llongyfarchiadau fil i Osian Gruffudd, Parc Nant Celyn ar ei lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Fe gipiodd Osian Dlws Coffa John Weston Thomas ar Sadwrn cyntaf yr Ŵyl ar yr unawd ar unrhyw offeryn gwerin. Bu'n defnyddio ei dalent yn gyson drwy'r wythnos yn cyfeilio i'w holl ffrindiau o Adran Bro Taf. Daeth i'r brig eto gyda Daniel Calan Jones yn y Ddeuawd Stepio, ac yn ail i'w frawd Trystan yn y ddawns Stepio Unigol i Fechgyn dros 16 oed. A braf oedd gweld Trystan yn ôl ar y brig eto ac yn gallu symud mor gelfydd ar ôl dioddef y ddamwain erchyll a allai fod wedi rhoi diwedd ar ei yrfa stepio.

Graddio
Llongyfarchiadau i Carwyn, mab Bethan ac Alun Roberts, Parc Nant Celyn ar dderbyn gradd 2:1 mewn Hanes a Gwleidyddiaeth o Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Mae'n dilyn cwrs i'w baratoi i fod yn athro yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yr un i'w ein llongyfarchiadau i Tomos, mab Rhiannon a Paul Gapper a dderbyniodd radd yn y Gyfraith o Goleg Prifysgol Abertawe.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Louise ac Andy Davies, Parc Nant Celyn ar enedigaeth eu mab bach Alfie. Brawd bach i Joey.

Croeso i'r Pentre'
Mae Costa a Karen Athantos, Stefanos a Alexandros wedi dod i fyw i Benywaun. Mae Karen yn hanu o Gaerdydd ac yn gweithio i Orsaf Radio Heart yng Nghaerdydd a Costa yn frodor o Ynys Cyprus ac yn gweithio i WRAP Cymru. Mae Karen yn awyddus i ymarfer ei Chymraeg ac mae Stefanos yn ddisgybl yn Ysgol gynradd Gymraeg Garth Olwg. Croeso i'r pentref.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i Brandon Coles a'r teulu ar golli ei fam yn ystod Mis Awst. Bu Irene yn byw ym Mhenywaun am gyfnod a dioddefodd o'r cyflwr Alzheimer. Roedd yr angladd yn Amlosgfa Llangrallo a'r Parchedig Eirian Rees fu'n arwain y Gwasanaeth.

Ffair y Pentref.
Cynhaliwyd Ffair lwyddiannus iawn yn Neuadd a Pharc y pentref ddydd Sadwrn, Medi 9fed. Er i ni gael cawod drom o law llai nag awr cyn y ffair, fe gawsom brynhawn heulog braf a thyrfa dda o bentrefwyr yn mwynhau'r holl weithgareddau.

Elfen newydd eleni oedd y gystadleuaeth "Oes Gen Ti Dalent?" Cynhaliwyd y rhagbrofion yn y capel a daeth nifer dda i gystadlu. Dewiswyd pum act i fynd ymlaen i'r rownd derfynol yn Y Tabernacl nos Sul, Medi 17eg. Y beirniaid oedd Siriol Burfod a Steve Preston. Enillwyr y gystadleuaeth oedd Band "The Health and Safety Executive", sef Huw ac Elen Griffiths a Steffan West, a'r tri yn trin eu hofferynnau'n gelfydd iawn. Cawsom gân neu ddwy gan y ddau feirniad. Siriol yn canu, Steve yn cyfeilio iddi ar y piano. Daeth Huw M i gyflwyno'r gân "Dal yn dynn" i gyfeiliant ei gitâr a daeth Dan, mab Siriol Burford i'n swyno â'r gân "Tryweryn".

Diolch i Geraint a Caroline Rees am drefnu'r gystadleuaeth. Roedd yn braf gweld y pentrefwyr yn dod ynghyd i'r Ffair i fwynau prynhawn o weithgareddau gan godi dros fil o bunnoedd i Gronfa'r Neuadd.

Dymuniadau Gorau
Dymunwn yn dda i Catrin Rhys, Penywaun sydd ar fin cael triniaeth yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau a brysia wella.

Cylch Cadwgan (Llun tudalen 4)
Nos Wener, Medi 15fed, Gwynfor Dafydd oedd gŵr gwadd Cylch Cadwgan. Gwynfor oedd prifardd Eisteddfod yr Urdd yn Mhenybont ar Ogwr eleni ac ef hefyd enillodd y gadair llynedd yn Y Fflint. Er mai brodor o Donyrefail yw Gwynfor rydyn ni yn Yr Efail Isaf yn falch iawn ohono gan ei fod yn un o bobl ifanc Y Tabernacl. Cawsom noson i'w chofio yn ei gwmni. Dechreuodd drwy sôn am y cerddi a enillodd y ddwy gadair iddo. Roedd wedi cyfansoddi cerdd ar y tesun "Yr Arwr" yn gynharach yn y flwyddyn ond ei rhoi i'r naill ochr a wnaeth gan nad oedd yn gwbl fodlon arni. Rhyw wyth niwrnod cyn dyddiad cau'r gystadleuaeth digwyddodd wylio'r ffilm "I, David Blake" a greodd y fath argraff arno nes tanio'r awen ac aeth ymlaen i ennill y gadair iddo ym Mhenybont-ar-Ogwr. Nid darllen ei gerddi wnaeth Gwynfor ar y noson ond eu hadrodd gydag arddeliad. Cyflwynodd ei ddarlith gyda hiwmor ac fe ganodd barodi ddigri o'r gân "Yma o Hyd" a oedd yn sôn am ganlyniad trychinebus Theresa May yn yr etholiad. Mae Gwynfor Dafydd yn wir athrylith. Yn bedair ar bymtheg oed yn unig, cawsom gampwaith ar gyflwyniad aeddfed ganddo.

Ceri Anwen fu'n llywyddu'r noson a gwnaeth hithau gyflwyno gyda chynhesrwydd a hiwmor.

Noson o hwyl
Cynhelir noson acwstig yn Nhafarn y Carpenters, nos Sadwrn, 7fed o hydref i ddechrau tua 8 o'r gloch. "Dewch â chân, dewch ag offeryn, dewch i ganu neu dewch i fwynhau'r gerddoriaeth mewn awyrgylch anffurfiol. Cysylltwch â Huw M am wybodaeth bellach.

Penblwydd Arbennig
Dymuniadau gorau i Loreen fu'n dathlu penblwydd arbennig ym mis Medi. Diolch am sicrhau newyddion cyson o'r pentref.

Y TABERNACL
Bedydd
Roedd yn hyfryd cael croesawu aelodau o ddau deulu i'r Tabernacl, fore Sul, Medi'r 3ydd i dystio i fedydd dwy ferch fach. Merch fach Tim a Mari West yw Gwenno Elliw ac mae'r teulu yn byw ym Mhontyclun. Mae Gwenno Elliw yn chwaer fach i Moli Awen.

Merch fach Joe a Cerys Emms o bentref Y Creigiau yw Sara Alys Wen a chwaer fach i Ela Wyn. Diolch i Jane Eryl Jones am lywio'r gwasanaeth yn ei ffordd ddihafal ei hun.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Gwilym ac Eleri Huws ar enedigaeth wyres fach. Ganwyd Aria Esyllt i Rhodri ac Emily sy'n byw yn Ffynnon Taf. Chwaer fach newydd i Elis, Osian, Jasmine ac Elijah.

Merched y Tabernacl
Teithio i Gaerdydd i'r Coleg Cerdd a Drama wnaeth nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl ddydd Mercher, Medi 20fed. Datganiad gan y tenor Rhodri Jones, enillydd Gwobr Ian Stoutzker 2017 oedd yr arlwy ar ein cyfer. Cyflwynodd raglen hyfryd o ganeuon Strauss a Vaughan Williams. Daeth ei ddatganiad i ben gyda phedair cân Gymraeg; "Cwm Pennant" gan Meirion Williams, "Y Dieithryn" gan Morgan Nicholas, "Mae hiraeth yn y Môr" gan Dilys Elwyn Edwards a gorffen yn orfoleddus gyda "O na byddai'n haf o hyd". Mae'n siŵr fod dyfodol disglair i'r canwr ifanc yma ac fe'i cefnogwyd yn wych ar y piano gan y cyfeilydd Conal Bembridge-Sayers. Trueni na fyddai'r Coleg Cerdd a Drama wedi gweld yn dda i roi ychydig o Gymraeg yn y rhaglen.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn y ganolfan ddydd Iau, Hydref 12fed.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Hydref
Hydref 1af Yr oedfa o dan ofal aelodau Efail Isaf
Hydref 8fed Y parchedig Alan Pickard
Hydref 15fed Gwasanaeth Cynhaeaf gyda phlant yr Ysgol Sul
Hydref 22ain Mr Emlyn Davies
Hydref 29ain y Parchedig Gethin Rhys

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Hydref 2017:

1 - Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
8 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Siôn
15 - Oedfa Ardal - Creigiau / Pentyrch
22 - Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts
29 – Oedfa dan ofal Hefin Jones

Mis Tachwedd 2017:

5 – Oedfa i'w threfnu
12 – Oedfa gymun dan ofal y Parchedig. R Alun Evans
19 – Oedfa dan ofal Delwyn Sion
26 - Oedfa dan ofal y Parchedig Allan Pickard

'Rwyn ysgrifennu y golofn yma ar Fedi 21ain - diwrnod rhyngwladol o heddwch sy'n cael ei drefnu gan y Cenhedloedd Unedig gyda'r bwriad o hyrwyddo heddwch rhwng cenhedloedd, a harmoni yn y cymunedau.

Yn flynyddol, bydd gofyn am gael cadoediad drwy'r diwrnod hwnnw o fore gwyn tan nos, i atgoffa'r byd pa mor werthfawr yw heddwch a pha mor anodd yw ei gadw.

Ers 1981, mae'r Gloch Heddwch, rhodd gan Siapan, wedi cael ei chanu ym Mhencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd ar y diwrnod hwnnw.

Cafodd y gloch,gyda'r arysgrif 'Hir Oes i Heddwch Byd Eang Llwyr' arni, ei gwneud o ddarnau o arian gafodd eu rhoddi gan blant o bob cwr o'r byd.

"*Er gwaethaf bodolaeth mudiadau cadw heddwch, a'r ffaith bod pobl yn casáu rhyfel, mae lluoedd cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig ar hyn o bryd wedi eu lleoli ar 16 o wahanol ymgyrchoedd ar draws y byd…*

Yn anffodus defnyddir heddwch fel masg i fytholi anghyfiawnder a grym a rheolaeth y rhai cryfaf. Hyd nes y bydd y newynog yn cael eu bwydo a'r cyfiawn yn cael eu haeddiant, byddwn o hyd yn gorfod byw dan gysgod rhyfel. Gyda biliwn o bobl yn y byd yn newynu, ni fu'r angen am wir heddwch erioed mor dyngedfennol, oherwydd beth yw heddwch heb gyfiawnder ond estyniad o ryfel." [gweler www.assemblies.org.uk]

Yma yng Nghymru nid oes angen atgoffa yr un o ddarllenwyrTafod Elái am Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru – eleni 'roedd y neges yn 95 mlwydd oed.

Ers 1922 mae'r neges wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol yr Urdd. Fe gofiwch i'r neges gyntaf gael ei hanfon gan Y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni. Roedd yn heddychwr mawr ac yn flaenllaw wrth sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO.

Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service ym 1924 ac erbyn heddiw mae'r neges yn ymddangos mewn sawl iaith ar y we, ac yn cyrraedd pedwar ban byd.

Ac hefyd mae gennym ein "Apostol Heddwch" ein hunain ym mherson Henry Richard, yr heddychwr o Dregaron (1812 – 1888) [gweler llyfr Gwyn Griffiths *Henry Richard – Heddychwr a Gwladgarwr. Gwasg Prifysgol Cymru 2013*].

Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Llundain ac yn Aelod Seneddol y Rhyddfrydwyr dros Ferthyr ac Aberdâr o 1868 tan ei farwolaeth sydyn ym 1888. Ond fel Ysgrifennydd y Mudiad Heddwch am bron i 40 mlynedd, o 1848 i 1884, y daeth Henry Richard i sylw rhyngwladol.

Yn ôl Mererid Hopwood *"… 'roedd e'n gwybod y daw'r amser - amser pan fyddwn ni'n datrys ein dadleuon, nid drwy ryfela, ond drwy drafod. A hyd oni ddaw'r amser hwnnw, mae hanes ei fywyd e yn ein herio ni - i ddyfalbarhau."*

Mae'n amlwg nad ydi'r "amser hwnnw" wedi cyrraedd clust na chalendar Donald Trump, Arlywydd Unol Daleithiau'r America, hyd yma, oherwydd ddyddiau yn union cyn Dydd Heddwch y Cenhedloedd Unedig, yn ei phrif siambr, o flaen camerau bydeang, dyma fygwth dinistrio gwlad gyfan, Gogledd Corea, pe bai galw ar adnoddau ei wlad i warchod ei gyngrheiriaid, gan yn ogystal gyfeirio at arweinydd y wlad honno fel y "dyn roced".

Er cyn lleied a wyddom am Ogledd Corea, a mwy na thebyg nad oes gennym ddim cydymdeimlad â'r hyn sy'n digwydd yno, mae ymateb ei Gweinidog Tramor i'r sylw yn un gwerth ei ail adrodd – "*Os oedd yn credu y gallai ein dychryn trwy wneud swn ci yn cyfarth, yna breuddwyd ci ydi hynny. [Yn yr iaith frodorol], breuddwyd ci ydi rhywbeth sy'n abswrd ac yn gwneud chydig iawn o sens.*"

Yma ym Methlehem bu i ni wneud defnydd o Oedfa Heddwch, a gyfieithwyd gan Swyddog Adnoddau Undeb yr Annibynwyr yn y De, y Parchedig Robin Samuel, fel sail i'n haddoliad ar Sul yr 17eg o Fedi, gan hefyd gynnwys darlleniad gan Martin Huws o'r cerddi a ennillodd iddo'r gadair yng Ngwyl Hedd Wyn ym Mhenbedw yr wythnos flaenorol.

Mis prysur ydi mis Medi eleni oherwydd o edrych ar y calendar unwaith yn rhagor, mae'na arwyddocad i'r 23ain o Fedi yn ogystal yn ôl rhai sylwebyddion.

Dyma yn ôl yr hanes pryd y bydd y blaned gudd X (Nibiru) yn taro ein daear ni a lladd y ddynoliaeth i gyd. Hyn fydd diwedd y byd!

Ac mae hyn i gyd wedi ei ragfynegi yn Llyfr y Datguddiad: Pennod 12. Adnod 1.

"Dyma arwydd rhyfeddol yn ymddangos yn y nefoedd: gwraig wedi'i gwisgo â'r haul. Roedd y lleuad dan ei thraed ac roedd coron o saith seren ar ei phen" [Beibl.net]

Mae'r proffwydi gwae yn mynnu bod yr "arwydd rhyfeddol" yn cyfeirio at y diffyg ar yr haul (solar eclipse) a ddigwyddodd y mis diwethaf, ac mae'r corwyntoedd sy'n parhau yn y Caribi, a'r daeargrynfeydd, yn brawf o'r dinistr cosmig sydd ar ein gwarthaf.

I roi hygrededd i'r cyfan, ar y 23ain o Fedi eleni, am y tro cyntaf erioed mae'n debyg, bydd y lleuad yn ymddangos o dan draed cytser y Forwyn (Virgo), a'r haul yn dilladu'r Forwyn yn berffaith. Bryd hynny bydd yr haul, y lleuad, a'r planedau Mawrth, Mercher, Iau a Gwener mewn un aliniad astronomaidd. [Cyfeirir at hyn fel Arwydd Datguddiad 12!]

Os byddwch yn darllen yr uchod bydd gennym syniad go dda o ddiffygion y rhagdybiaethau a nodwyd!

Arglwydd, tyrd â heddwch i'n byd blinderus
Heddwch sy'n gyfiawn
Heddwch sy'n deg
Heddwch i bawb. ***Amen***

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.bethlehem.cymru

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2017

Nos Sadwrn 14 Hydref
Theatr Sony, Campws
Coleg Pen-y-bont

Yn dilyn cyffro'r cystadlu ym Mhencoed fis Mai, bydd chwech o gystadleuwyr mwyaf addawol yr Eisteddfod o dan 25 oed yn ymgiprys am ysgoloriaeth sy' werth £4000. Cynhelir Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel nos Sadwrn 14 Hydref yn Theatr Sony, sydd ar gampws Coleg Penybont.

Y chwech sydd yn cystadlu eleni fydd

1. Daniel Calan Jones, Adran Bro Taf
2. Harry Lovell Jones, Aelod Tu Allan i Gymru ond yn wreiddiol o Gaerdydd
3. Sioned Llewelyn, Aelod Unigol Cylch Y Frenni, Sir Benfro
4. Megan Llŷn, Aelod Tu Allan i Gymru ond yn wreiddiol o Sarn, ger Pwllheli
5. John Ieuan Jones, Aelod Unigol Cylch Bro Dulas, Conwy
6. Cedron Sion, Aelod Unigol Cylch Eifionydd, Eryri

Archebwch docynnau gyfer yr Ysgoloriaeth drwy ffonio 0845 257 1639.

Colofn Blasus ac Iachus
gyda Eluned Davies Scott

LLYSIEUYN HERIOL?

Yn ddiweddar dwi wedi bod yn darllen llyfr Bee Wilson '*First Bite'* sy'n trafod sut mae ein harferion bwyta'n datblygu. Mae'n llawn o synnwyr cyffredin ond yn werth darllen os oes gennych fwytawyr ffyslyd yn eich teulu. Fel y gallwch werthfawrogi mae pwyslais ynddo ar sut i gael plant i fwynhau bwyta amrywiaeth o fwydydd yn enwedig llysiau.

Mae'n ymddangos bod gan bob diwylliant lysieuyn neu lysiau heriol sydd ddim yn boblogaidd yn enwedig gyda phlant - okra yn Brasil (llysnafeddog), erfin yn Ffrainc (ei chwerwder). Mae un bennod yn y llyfr yn cyfeirio at amhoblogrwydd betys; mae ganddo flas eithaf chwilfrydig sy'n atgoffaol o bridd a gwaed (y 'tramgwyddwyr' yw cyfansoddyn cemegol geosmin), ansawdd eithaf cnawdol ar ôl ei goginio, ac yn bennaf oll, mae ganddo'r lliw syfrdanol sy'n gwaedu dros bopeth arall sydd ar y plât. Serch hynny mae betys yn boblogaidd ymysg oedolion ac yn ymddangos ar fwydlen llawer o fwytai gan gael ei weini yn aml gyda chaws gafr. Fel oedolion rydym yn mwynhau'r rhinweddau mae plant yn eu casáu ac mae Bee Wilson yn defnyddio'r betys fel enghraifft o sut y gall ein blasau newid. Mae hi'n honni, os cyflwynir plant trwy 'addysg synhwyraidd' i ystod eang o flasau, maen nhw'n dechrau mwynhau eu cymhlethdod ac yn fwy parod i arbrofi gydag ystod ehangach o fwydydd.

Felly mae natur ddysgedig y blas yn awgrymu'r posibilrwydd o newid ond nid yw'n golygu y bydd yn broses cyflym - naill ai ar gyfer plant neu ein hunain (faint ohonom sy'n dal i gysylltu betys gyda'n profiad o'r llysieuyn wedi'i orchuddio â finegr cryf?). Mae Wilson yn cydnabod y gall newid fod yn anodd a hyd yn oed yn cynnig rhai awgrymiadau ar sut i iro'r broses. Meddai - *Os nad oes brocoli yn y tŷ, mae'n debyg na fyddwch chi'n ei fwyta; os oes Pop-Tarts yn y tŷ, mae'n debyg y byddwch chi'n bwyta rhai; os ydych chi eisiau'r teulu i fwyta mwy o frocoli, dechreuwch drwy roi sylw i'w nodweddion synhwyraidd - "blas melys a creisionllyd a blodigion cyrliog" - a pheidiwch â dechrau gyda'r syniad ei fod yn dda i chi. Cadwch at eich gynnau: cymhellwch a defnyddiwch gymorth dwbl o ewyllys.*

Ond yn ôl at y betys. Fel llawer o lysiau modern, fe gafodd betys eu tyfu yn gyntaf gan y Rhufeiniaid. Yn y bedwaredd ganrif a'r bymtheg darganfuwyd y gellid trosi beets i fod yn siwgr ac fe ddaeth o werth masnachol pwysig. Heddiw, mae'r prif gynhyrchwyr masnachol yn cynnwys UDA, Rwsia, Ffrainc, Gwlad Pwyl a'r Almaen. Mae llawer o ryseitiau betys clasurol yn gysylltiedig â chanol a dwyrain Ewrop, gan gynnwys y cawl betys enwog a elwir yn *borscht*.

Yn gysylltiedig â'r un teulu â chard a sbigoglys, gall y dail a'r gwreiddyn gael eu bwyta - mae gan y dail flas chwerw tra bod y gwreiddyn crwn yn fwy melys. Mae betys o werth maeth da gyda'r dail yn gyfoethog mewn calsiwm, haearn a fitaminau A a C. Mae hefyd yn ffynhonnell wych o asid ffolig, ffibr, manganîs a photasiwm.

Mae betys gwyn neu euraidd ar gael sydd, efallai, yn fwy derbyniol o ran ymddangosiad na'r un porffor tywyll.

Oherwydd ei gynnwys siwgr uchel, mae betys yn flasus wedi'i weini yn amrwd ac mae hyn yn ddewis arall i'w goginio neu wneud yn bicl. Gellir coginio'r dail a'u mwynhau yn yr un ffordd â spigoglys.

Dwi wedi rhoi cais ar ddefnyddio betys mewn gwahanol ffyrdd. Gallwch ei chynnwys mewn 'Brownies' ond, yn fy marn i, mae'r canlyniad yn troi allan braidd yn 'drwm'. Yn ddiweddar darllenais rysáit ar gyfer cyri betys sy'n gwreiddio yn Sri Lanka, i mi mae'r llun sy'n cael ei gyflwyno gyda'r rysáit yn fy atgoffa o nodweddion y betys soniais amdanynt ar ddechrau'r erthygl ac, fel canlyniad, rwyf heb fod digon mentrus i'w baratoi hyd yn hyn!

Dau ryset sy'n dangos rhinweddau gorau'r llysieuyn yw **Salad Moron a Betys** a **Eog Wedi'i fygu gyda Betys a Creme Fraiche blas Fodca** (rysáit dwi wedi defnyddio fel cwrs cyntaf i bryd cinio Nadolig) Mae'n syniad da gwisgo menyg rwber neu lawfeddygol ar gyfer paratoi'r betys!

Salad betys a moron

1 betys
2 foronen
1 oren
1 llwy fwrdd o hadau sesame
1 llwy de o fel
1 llwy fwrdd o olew olewydd
Dail salad gwyrdd o'ch dewis.

Tostio'r hadau sesame.
Gratio'r oren a chymysgu'r croen gyda'r sudd, yr olew, halen a phupur.
Pilio a gratio'r betys a'r moron i fowlen fawr yna ychwanegu'r dresin a'r hadau sesame, cymysgu'n dda a'u gweini ar ddail salad gwyrdd.

Eog wedi'i fygu gyda Betys a Crème Fraiche blas Fodca (digon i 4)
120g crème fraiche
2 lwy de o fodca
1llwy de saws 'Horseradish'
4 tafell o eog wedi'i fygu
Tua 150g betys wedi'u coginio
Ychydig o berlysyn dil neu gennin syfi (chives), lemwn a dyfrlliw neu salad cymysg gwyrdd i addurno

Torri'r betys yn stribedi tenau. Cymysgu'r fodca a'r saws 'Horseradish' gyda'r crème fraiche ac ychydig o halen a phupur.

Rhoi'r eog ar blatiau yna'r betys a llwyaid o'r crème fraiche.
Addurno gyda'r dil neu gennin syfi, lemwn ffres a thusw bach o ddyfrlliw (watercress) neu dail salad.

Deg Hoff Englyn

Gwahoddiad caredig yw hwn: gwahoddiad i holl garedigion y pethe, ac yn arbennig i'r cannoedd lawer sy'n mawr werthfawrogi traddodiad barddol cyfoethog Cymru.

O blith mesurau cerdd dafod, yr englyn, bid siŵr, yw un o'r rhai mwyaf poblogaidd. A dyna amcan y nodyn hwn: estyn gwahoddiad diffuant ichwi anfon ataf destun eich hoff ddeg englyn. Nid cystadleuaeth ydyw, ond cyfle i bawb fod â rhan mewn gweithgarwch fydd yn adlewyrchu'r diddordeb rhyfeddol sydd gan gymaint ohonom yn y chwarel ddihysbydd hon o englynion, ar gof a chadw gennym fel cenedl o'r nawfed ganrif hyd heddiw. Bydd croeso arbennig i englynion lleol, llai cyfarwydd, o bosibl, ond rhai ag iddynt apêl bersonol i chwi.

Yn ogystal ag ennyn diddordeb pellach yn hoff englynion y Cymry, y gobaith yw codi swm sylweddol o arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018 (gw. isod). Cyhoeddir y deg englyn a ddaeth i'r brig, a detholiad o'r gweddill, ynghyd ag enwau pawb a gyfrannodd.

Rhai cyfarwyddiadau pellach:

1. Anfoner testun teipiedig o'r englynion ar bapur A4.
2. Os yn bosibl, anfoner copi o'r englynion hefyd ar ffurf atodiad drwy ebost.
3. Gyda'r englynion gofynnir yn garedig ichwi anfon rhodd o £25 (neu fwy, os dymunwch). Y siec yn daladwy i: Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.
4. Dylid nodi enw awdur pob englyn, os yw'n wybyddus. Yn arbennig gydag awduron llai cyfarwydd, gorau oll os gellir hefyd ychwanegu yn gryno unrhyw wybodaeth bellach, megis ardal yr awdur a blwyddyn geni / marw.
5. Gellir cynnwys unrhyw un o ffurfiau'r englyn, nid yr englyn unodl union mwyaf cyfarwydd yn unig.
6. Os yw englyn yn rhan o gyfres, da fyddai nodi hynny.
7. Gorau oll os gellwch restru'r englynion yn nhrefn blaenoriaeth. Ond nid yw hynny'n orfodol. Gellwch hefyd, er enghraifft, eu dosbarthu fel hyn: 1-3: hoff englynion; 4-6: ail ddosbarth o hoff englynion; 7-10: trydydd dosbarth o hoff englynion.
8. Gyda'r casgliad o englynion dylid nodi eich enw, cyfeiriad (yn cynnwys cyfeirnod post), rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost.

9.Y dyddiad cau yw 1 Ebrill 2018, ond gorau po gyntaf i anfon ataf: Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd, CF5 2AL. Tel. 029 2056 6249. rgwyndaf@sky.com

Byddai'n hyfrydwch arbennig i mi pe bai ugeiniau lawer ohonoch yn mynd ati mor fuan â phosibl i ddewis eich hoff englynion. Yr un modd, i annog eraill drwy ddangos y gwahoddiad hwn i unigolion, cymdeithasau, dosbarthiadau cerdd dafod, ac ati. Canmil diolch am eich cefnogaeth a phob dymuniad da.

Robin Gwyndaf

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr
Fe fydd y Gangen yn cwrdd nesa nos Iau, Hydref 12fed am 7.30 yn Festri Capel Sardis i ddathlu diwrnod 'Shwmae Su'mae'. Mae'r noson yn agored i ddysgwyr o bob safon. Dewch gyda ni i weld paneli Dathlu'r Aur yn adeilad y Pierhead, Hydref 26ain.

Ym mis Tachwedd byddwn yn croesawu Yvonne Evans, (S4C) i siarad am 'Y tywydd a fi' – nos Iau Tachwedd 9fed.

Clwb Llyfrau
Mae croeso i aelodau newydd i ymuno â'r criw sy'n cwrdd yng Nghlwb y Bont ar y drydedd nos Fawrth bob mis am 8.00 p.m. Cyfrol mis Hydref yw nofel Heiddwen Tomos 'Dwr yn yr afon' - nos Fawrth, Hydref 17eg

Nofel Saesneg sy dan sylw ym mis Tachwedd sef 'Birdcage Walk' gan Helen Dunmore.

Dwy gyfrol (gan ferched a chysylltiadau â'r ardal) i'w darllen erbyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr – 'Glas a Gwyrdd' gan Eiry Miles a 'Gwales' gan Catrin Dafydd. Nos Fawrth Rhag19eg

Gwellhad Buan
Dymunwn adferiad buan i Delyth Blainey, Lanwood Road, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysia nôl i'r côr a Merched y Wawr.

Cartref newydd
Croeso nol i Graigwen i Rhys Pelley. Mae e'n gyn ddisgybl Evan James a Rhydfelen. Mae Rhys wedi ymgartrefu yn Parc Prospect.

Haf o Golledion
Mae hi wedi bod yn gyfnod o dristwch i sawl un o ddarllenwyr y Tafod.

Hoffai Jayne ddiolch i bawb am y negeseuon a chardiau o gydymdeimlo a dderbyniodd ar ôl colli ei mam, Mrs Madge Rees, Abertawe ym mis Awst yn 90 oed.

Mae ein cydymdeimladau yn mynd hefyd at Caryl a Gareth Williams, Parc Graigwen. Bu farw Glynis Evans, Lanwood Road, chwaer Caryl, ar ôl brwydro'n ddewr â'i salwch.

Buodd Glynis yn athrawes yn Ysgol Gynradd Cilfynydd am nifer o flynyddoedd cyn ymddeol. Roedd hi'n weithgar iawn gyda sawl elusen gan deithio dramor i wneud gwaith gwirfoddol yng Ngweriniaeth Dominica a Zambia.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Rhuanedd Richards a'r teulu, Heol Merthyr. Bu farw llystad Rhuanedd, Mr. Gwyn Jones, Cwmbach, ger Aberdâr ym mis Awst.

Fe ddaeth newyddion ym mis Medi am farwolaeth Myfanwy Thomas, gynt o Llandysilio, mam Delyth Jones, yng Nghartref Gofal Ridgeway, Llawhaden, yn 95 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad i Delyth a Niwc, Aled, Gwenno a'i gwr Richard.

Clwb y Bont
Croeso i'r Pwyllgor i Graham Davies, Cilfynydd sy'n ymgymryd â swydd y Trysorydd gan ddiolch i Clayton Jones am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Graham wedi bod yn gwirfoddoli tu ôl y bar ers nifer o fisoedd. Pob dymuniad da iddo.

Mae'n amser ail ymaelodi â'r Clwb. Cysylltwch â Jayne am ffurflen.

Gwibdaith
Braf oedd croesawu trip o ardal Pontarddulais i Bontypridd ym mis Medi. Mair Davies, cyn prifathrawes Ysgol Evan James (sydd bellach yn byw yno) oedd wedi trefnu'r daith. Fe gychwynnon nhw ym Merthyr gan ymweld â Chanolfan Soar a chwrdd â Dyfrig Morgan i gael ychydig o'r hanes. Wedyn heibio i Aberfan a chyrraedd Pontypridd gwlyb yn y pnawn! Cawson nhw gyfnod yn yr Amgueddfa ar ôl cerdded dros yr Hen Bont. Perswadiwyd y cyfansoddwr Eric Jones i chwarae'r organ a buon nhw'n canu ambell emyn a'r Anthem Genedlaethol wrth gwrs!. Gwelon nhw'r gofeb yn y parc i Evan a James James ac yna'r Lido cyn swpera yn y Trattoria a theithio nôl i'r gorllewin.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb y Dwrlyn
Cafwyd noson agoriadaol arbennig iawn yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ddiwedd Medi pan ddaeth Delwyn Siôn atom i'n diddanu. Mwynhâd pur oedd gwrando arno yn trafod ei gefndir a'i atgofion yn ei ddull ffraeth dihafal ei hun. Cafwyd cyfle hefyd i werthfawrogi ei ddawn gerddorol wrth wrando arno'n canu rhai o'i ganeuon poblogaidd. Roedd yn noson hynod hwyliog ac yn ddechreuad da i'r tymor. Edrychwn ymlaen at groesawu Bryn Fôn atom ar Hydref 12fed i gael ei holi gan Huw Llywelyn Davies. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Apêl yr Eisteddfod
Trefnwyd taith hanesyddol gan Bwyllgor Apêl yr Eisteddfod ar brynhawn braf ym mis Medi. Geraint Rees oedd yn arwain y daith a gyflwynodd rhai o hanesion yr ardal wrth grwydro'r Garth.

Diwrnod Shwmae Su'mae

Annwyl Gyfeillion
Eleni bydd Diwrnod Shwmae Sumae yn digwydd am y pumed tro ar **Hydref 15fed.** Cofiwch achub ar y cyfle i ddathlu'r iaith Gymraeg, yn eich ysgol, coleg, gweithle, ysbyty, caffi, bar neu siop leol.

Dechreuodd Diwrnod Shwmae Sumae 5 mlynedd yn ôl gyda dros 100 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ac wedi eu hysbrydoli gan ymgyrchoedd tebyg i hybu ieithoedd brodorol Gwlad y Basg a Llydaw.

Heddiw mae'r achlysur wedi ei gofleidio gan bobl ymhob rhan o Gymru, yn ddysgwyr, y di-gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Erbyn hyn mae cannoedd o ddigwyddiadau ac achlysuron yn cael eu cynnal o Fôn i Fynwy ar **Hydref 15fed neu yn ystod yr wythnos honno**. Mae nifer o sefydliadau ac ysgolion yn cynnal digwyddiadau o gwmpas y Diwrnod er mwyn hyrwyddo'r iaith, annog eraill i'w defnyddio ac fel ffordd o bontio rhwng cymunedau Cymraeg a di-gymraeg.
Mae mudiadau sy'n aelodau o Ddathlu'r Gymraeg yn annog pawb i gymryd rhan yn y dathliadau eleni, ac os ydych chi angen cyngor ar beth i'w wneud cysylltwch gydag un o'r isod, maent yn siŵr o'ch rhoi ar ben y ffordd:

Cewch fanylion a syniadau ar www.shwmae.org
Dilynwch ni ar Twitter @shwmaesumae ac ar Facebook: Diwrnod Shwmae Sumae

Yr eiddoch yn gywir,
Sioned Haf
Swyddog Ymgyrchoedd

Ethan Williams - Arweinydd Ifanc Cymru

(Parhad o dudalen 1)

Yn un o wirfoddolwyr ifanc mwyaf ymroddedig yr Urdd, mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i Ethan. Ef yw Cadeirydd Fforwm Ieuenctid Ysgol Gyfun Garth Olwg; mae'n Llysgennad; yn Aelod o Fwrdd Syr IfanC; ac yn cynrychioli Bwrdd Syr IfanC ar y bwrdd Maes a Chwaraeon ac ar y Panel Cyd-ddyn. Yn ogystal, fe gymerodd ran yng nghyfansoddiad Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd eleni gan gyflwyno'r Neges o lwyfan Eisteddfod yr Urdd ac i aelodau'r Cynulliad yn y Senedd.

Teimla Ethan fod gweithio gyda phobl ifanc a'u cynrychioli yn ei rôl fel aelod o Fwrdd Syr IfanC wedi bod yn gymorth wrth iddo ddatblygu i fod yn arweinydd hyderus a chefnogol sy'n ceisio ysbrydoli eraill. Mae'r ysgol yn hynod o falch o lwyddiant Ethan.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
27 Hydref 2017

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

FFAIR HYDREF

Dydd Sadwrn , Hydref 14eg
Neuadd y Pentre, Efail Isaf
Drysau'n agor am 10 o'r gloch.

Amrywiaeth o stondinau e.e gemwaith, serameg, gwaith pren,teisennau, raffl Elw at Ymchwil Nychdod Cyhyrol (Muscular Dystrophy)

MERCHED Y WAWR
Pontypridd

Shwmae Su'mae - Noson I'r Dysgwyr

7.30yh Hydref 12fed
Yn Festri Capel Sardis

Rhagor o fanylion:
01443 485272

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Hydref 18fed

'O ail iaith i farddoniaeth'
gyda Clare Potter

Rhagor o fanylion:
01443 223828

HUW ROBERTS CYFRIFYDD

Ymarferydd Profiant
Awdurdodedig
Gwasanaeth personol, proffesiynol a dibynadwy
Profiant (Probate)
Treth Etifeddiaeth
Treth Eiddo
Cynllunio ar gyfer ewyllys

Gwasanaeth Ymweliad Cartref ar gael

029 2069 4524
07967 976854

huwrobertsaccountant@gmail.com

www.huwrobertsaccountant.cymru
sefydlwyd 1987

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Grŵp Siarad
Diolch yn fawr i'r siaradwyr rhugl a dysgwyr a ddaeth i'r Grŵp Siarad cyntaf yn y Clwb Rygbi. Mae pawb eisiau cwrdd eto felly bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 17 Hydref am 7pm. Croeso i bawb!

CLWB Y DWRLYN

Bryn Fôn
Yn cael ei holi gan Huw Llywelyn Davies

8yh Nos Iau 12 Hydref
Clwb Rygbi Pentyrch

Manylion: 029 20890040

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Gwener, 20 Hydref 2017
Sgwrs gan Jon Gower
ar y testun,
'O Colombia i'r New Conway: Dilyn Trywydd Tony Bianchi'.

Cynhelir y cyfarfodydd am 7.00 o'r gloch yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Catrin Stevens

Lleisiau o lawr y ffatri

8yh Nos Fercher 11 Hydref
yn Y Ganolfan Efail Isaf

Ffoniwch am wybodaeth bellach
029 20890979

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd Lleol: Elain Haf

Darlith gyhoeddus gan Dean Powell
I'r sawl sydd â diddordeb yn hanes Llantrisant a'r ardal, bydd Dean Powell yn traddodi darlith gyhoeddus yn Neuadd Y Plwy, Llantrisant ddydd Gwener Tachwedd 17eg am 7 yr hwyr.

Rhai o'r hanesion y bydd Dean yn cyfeirio atynt yw pwysigrwydd Llantrisant fel canolfan gwrthryfel Cymry'r De-Ddwyrain yn erbyn y Normaniaid yn y Canol Oesoedd cynnar. Carcharwyd Edward II dros nos yn y Castell yn 1326. Bydd yn sôn hefyd am hanes y 'Fyddin Ddu', sef milwyr o Lantrisant a fu'n ymladd ym Mrwydr Crecy yn 1346. Hefyd ceir hanes un o Gymry mwyaf hynod Oes Fictoria, sef Dr William Price, yn ogystal â hanes Rhyddfreinwyr y dre. Bydd cyfeiriad hefyd at storiau llai adnabyddus a thywyll Llantrisant, at lofruddiaethau, heintiau, a hefyd at hanes y wyrcws lleol, sef y Model House heddiw.

Taith Gerdded Macmillan
Daeth criw da o gerddwyr i Ganolfan Chwaraeon Llantrisant fore Sul 10fed o Fedi i gychwyn ar daith gerdded 8 milltir ar gyfer elusen Macmillan. Er nad oedd y tywydd yn wych, roedd yr hwyl a'r asbri yn ddigon i annog pawb i gyflawni'r siwrne. Daeth ein 'dyn tywydd', Derek Brockway, i gychwyn y cerddwyr ar eu ffordd er nad oedd yn ddigon da i ymuno â ni i gerdded eleni. Roedd sesiwn 'cynhesu i fyny' yn y ganolfan chwaraeon i baratoi pawb, cyfle i gael hoe fach wrth y 'Ship' a pharti bach yn disgwyl pawb ar ôl iddynt ddychwelyd (a medal am eu hymdrechion!). Grŵp codi arian Macmillan Pontyclun a'r cylch oedd yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad gyda chefnogaeth arbennig gan gwmnïau lleol, yn enwedig cwmni MS oedd yn brif noddwr y daith, staff y ganolfan chwaraeon, yr heddlu a'r gwirfoddolwyr oedd yn stiwardiaid ar hyd y llwybr. Mae wedi bod yn fis prysur i'r grŵp gyda chasgliadau bwced yn Marks & Spencer ar y penwythnos yn dilyn y daith gerdded, sioe ffasiynau siop 'Missy' Tonysguboriau yn Neuadd Dowlais ar y 23ain a'r Bore Coffi Mawr ar y 29ain o Fedi.

Dyrchafiaeth
Llongyfarchiadau i Sioned Scott, merch Eluned a Dennis o Feisgyn, ar ei dyrchafiaeth i fod yn Rheolwr Logisteg a Strategaeth i gwmni ceir Rolls-Royce yn eu pencadlys yn Goodwood, Gorllewin Sussex. Hi yw'r ferch ieuengaf i gyrraedd y lefel yma yn y cwmni. Mae Sioned yn gyn ddisgybl o Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth ac Ysgol Plasmawr.

Dymuniadau gorau
Pob dymuniad da i Rhodri Parker, Y Parc, Groes-faen, a fydd yn dechrau cwrs Rheolaeth Technoleg Gwybodaeth, Busnes ym Mhrifysgol Bryste y mis hwn.

Mae Carwyn, ei efaill, yn parhau i ddilyn cwrs Cynnal a Chadw Cyfrifiaduron yng Ngholeg Ystrad Mynach.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i Rhodri ac Emily, Ffynnon Taf, ar enedigaeth merch fach, Aria Esyllt, ar Awst 20fed. Mae'n chwaer fach i Elis, Osian, Jasmine ac Elijah. Mae Nain a Taid Meisgyn, Eleri a Gwilym Huws wrth eu bodd â'r ychwanegiad newydd i'r teulu.

Gwellhad Buan
Cafodd Dr Wynne Davies, Fferm Ceulan, Meisgyn lawdriniaeth yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg ar 23ydd Awst. Roedd y llawdriniaeth yn llawer mwy na'r disgwyl ond mae e adref erbyn hyn ac yn parhau i wella'n araf.

Gwerthwyd 1,200 copi o Hunangofiant Dr Wynne (Gwasg Gomer, Gorffennaf 2015) dros y byd mewn tri mis. Rhoddodd Dr Wynne araith ar ei Hunangofiant i Gylch Cadwgan yn Efail Isaf ym mis Ionawr.

Prosiect adnewyddu Neuadd Llantrisant
Ers dros chwe blynedd mae Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant wedi gweithio'n ddiflino i oruchwylio'r gwaith o adnewyddu'r adeilad hardd hwn. Mae'r prosiect yn fuddsoddiad pwysig iawn i ddyfodol Llantrisant. Bydd arddangosfa yn y ganolfan yn adrodd hanes cymuned a sefydlwyd dros 1,500 o flynyddoedd yn ôl a gobeithir y bydd y datblygiad hwn yn denu llu o ymwelwyr i'r dre. Bwriedir cynnal gweithgareddau eang yno mewn amryw o weithdai. Bydd darpariaeth ar gyfer plant ac oedolion yn yr ystafell ymchwil a'r ardal Technoleg Gwybodaeth. Disgwylir hefyd y bydd arddangosfeydd yn cael eu cynnal yno yn gyson. Hyd yn hyn cwblhawyd 75% o'r gwaith adnewyddu. Mae angen o gwmpas £200,000 yn ychwanegol eto er mwyn cyflawni'r gwaith. Bydd Dean Powell, rheolwr y prosiect, yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniadau at yr achos.

Gohebyddion mis nesaf: Nia Donnelly a Dilwen Davies

CHWARAEON YR URDD

Ardal Taf

Chwaraeon

Cysylltwch a fi i gofrestru

Jessica Stacey:
07917 270301 jessstacey@urdd.org

Clybiau yn rhedeg drwy gyfrwng y Gymraeg

Clwb	Lleoliad	Dydd	Amser / Oedran /Pris	Disgrifiad
PLANTOS HEINI	Ysgol Gyfun Garth Olwg	Llun	4:00 - 4:45 Meithrin a Derbyn £3	Dysgu sgiliau chwaraeon craidd gyda elfen o gymnasteg
NOFIO	Ysgol Bryncelynnog	Mawrth	4+	*Rhestr aros, rhaid cysylltu â ni
TOTS CHWARAEON CYMRAEG	Neuadd Caerlan, Llantrisant	Mawrth	5:00 - 5:45 Meithrin a Derbyn £3	Dysgu sgiliau symud sylfaenol a trio wahanol mathau o chwaraeon
HWYL FFITRWYDD	Ysgol Llanhari (Tu fas neu gampfa)	Mercher	5:00 - 5:45 Blwyddyn 1 - 3 £3	Sesiwn ffitrwydd sydd yn cynnwys amryw o bethau hwyl
GYMNASTEG	Ysgol Gyfun Garth Olwg	Iau	4:00 - 4:45 Blwyddyn 3 - 6 £3 5:00 - 5:45	Datblygu sgiliau craidd yn dilyn A-Z Gymnasteg Cymru
TOTS CHWARAEON CYMRAEG	Ysgol Gyfun Garth Olwg	Gwener	4:30 - 5:30 Derbyn - Blwyddyn2 £3	Dysgu a trio gwahanol mathau o chwaraeon pob wythnos
SBORT SADWRN	Ysgol Llanhari	Sadwrn	9:30 - 11:00	Dewch i fwynhau amryw o chwaraeon

Eisteddfod leol yn dychwelyd i Gaerffili am yr ail flwyddyn

• Cyfle i weld plant ac oedolion yn arddangos eu talentau cerddorol a chreadigol
• Daeth dros 250 i gystadlu y llynedd
• Y digwyddiad i aros yn Safle'r Gwyndy yng Nghaerffili yn dilyn llwyddiant y llynedd

Bydd gan Gaerffili ail gyfle i weld talentau cerddorol a chreadigol yr Hydref hwn wrth i Eisteddfod y Cymoedd ddychwelyd i'r dref am yr ail flwyddyn. Yn dilyn ei hadleoliad lwyddiannus i'r dref y llynedd pan welwyd dros 250 yn cystadlu, penderfynwyd cynnal y digwyddiad yng Nghaerffili am yr eildro.

Cyniga'r Eisteddfod y cyfle i blant ac oedolion o bob cwr o'r bwrdeistref a thu hwnt ddod at ei gilydd i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, gan gynnwys canu, dawnsio, ffotograffiaeth, canu corawl ac offerynnol.

Cynhelir yr Eisteddfod ddydd Gwener Hydref 20fed o 3.30yp ymlaen yn Safle'r Gwyndy, Caerffili. Y dyddiad cau i gofrestru yw 6ed o Hydref 2017.

Daeth nifer o ysgolion ac unigolion o'r Sir a thu hwnt i gystadlu y llynedd a dathlu deng mlwyddiant ers sefydlu'r Eisteddfod.

Dywedodd Aled John, Cadeirydd yr Eisteddfod "Pleser oedd gweld safon uchel y perfformiadau y llynedd ac roeddem wrth ein bodd yn gweld gymaint yn cystadlu. Ynghyd ag arddangos talentau lleol, mae'r Eisteddfod yn dod â siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg at ei gilydd i fwynhau'r noson. Eleni rydym yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad y llynedd a chroesawu hyd yn oed mwy o bobl i gystadlu. Ceir manylion llawn ar ein gwefan www.eisteddfodycymoedd.cymru a hoffwn annog unrhywun sydd â diddordeb i gofrestru'n fuan."

Am ragor o wybodaeth ewch i www.eisteddfodycymoedd.cymru Neu ein tudalen Facebook neu Twitter.

FFONLYFR Menter Caerdydd

Trydanwyr // Plymwyr // Garddwyr // Tiwtoriaid // Cyfreithwyr a Chyfrifwyr // Trin Gwallt a Harddwch // Adloniant // Dylunwyr // Gofal Plant // Cyfieithwyr a llawer mwy...

Ydych chi'n cynnig neu'n nabod rhywun sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas?

O waith yn y cartref neu wasanaethau proffesiynol, ac o gwmnioedd mawr i unigolion, bwriad y Ffônlyfr yw cynnig casgliad cynhwysfawr o wasanaethau Cymraeg y ddinas.

Fel rhan o ail ddylunio gwefan Menter Caerdydd, rydym yn edrych i ail-lansio'r Ffonlyfr, a lansiwyd gyntaf yn 2005, gyda mwy o fusnesau a chwmniau nag erioed.

Rydym wedi ymestyn y cynnig arbennig i gofrestru eich gwasanaeth am ddim tan ddiwedd mis Hydref, felly cysylltwch gyda Leanne yn swyddfa Menter Caerdydd ar unwaith i sicrhau lle yn y Ffônlyfr newydd!
leanne@mentercaerdydd.cymru
029 2068 9888

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Braf nodi bod dau lyfr Cymraeg yn ymwneud â gwyddoniaeth wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar. Brafiach fyth, i ni yn y Gymdeithas, yw nodi bod dau o'n haelodau yn awduron, un yn rhannol (Dr. Hefin Jones) a'r llall (Dr. Rowland Wynne) yn llwyr.

Evan James Williams (*Ffisegydd yr Atom*) gan Rowland Wynne yw'r ail i'w chyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru yn y gyfres Gwyddonwyr Cymru. Mae cael sylwadau gan Syr John Meurig Thomas a'r Athro Glyn O. Phillips yn warant o safon uchel y gyfrol. Dywed Dr. Phillips, 'Portread cynnes a darllenadwy o wyddonydd atomig mwyaf Cymru…' a Syr John, '… mae'r llyfr godidog hwn yn gwneud cyfiawnder â'i (EJW) yrfa mewn cyfanwaith sydd wedi'i gyfansoddi'n wych….'.

Mae'n anodd gwneud tegwch â disgleirdeb Williams yn ei faes, maes a ffrwydrodd yn y cyfnod 1920-1940. Bu Williams ysgwydd-wrth-ysgwydd gyda chewri ffiseg ryngwladol y cyfnod, gan gyfrannu'n gyfoethog at ein deall o berfeddion yr atom. Mae Rowland yn crynhoi'n gain holl ramant stori Williams, o'i fagwraeth ym mhentref Cwmsychpant, nid nepell o Lanbedr-pont-steffan, a'i yrfa drawiadol o dreiddgar mewn sawl prifysgol gan orffen yn Athro ffiseg yn Aberystwyth, ond yn cloi'n rhy gynnar o lawer pan oedd yn 42 oed. Does neb a all ddychmygu pa gyfoeth pellach oedd yn ei ddoniau cynhenid a'i allu i ysgogi eraill – 'that volatile genius', 'mercurial temperament'. Rhaid canmol a diolch i Rowland am lunio cyfrol werthfawr iawn, yn ôl Syr John, 'fe all y lleygwr ddeall…'.

Gwaith dau awdur, Hefin Jones a Noel Davies, yw *Cristnogaeth a Gwyddoniaeth* a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru gyda chymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Bu, ac y mae, Hefin yn wyddonydd wrth ei alwedigaeth, tra bu gyrfa Dr. Davies yn fwy amrywiol, gan ddechrau gyda graddio mewn biocemeg, troi at ddiwinyddiaeth a bod yn weinidog eglwysi a swyddog mudiadau crefyddol yng Nghymru am nifer fawr o flynyddoedd ac ail-gydio, yn ddiweddar iawn, mewn gwyddoniaeth trwy ddilyn ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe. Yn ôl y broliant, 'Dyma'r unig ymdriniaeth ddiweddar yn y Gymraeg â rhai o'r cwestiynau cymhleth a heriol a godir i ddiwinyddiaeth Gristnogol gan wyddoniaeth gyfoes….'

Mae detholiad o gynnwys y llyfr yn dangos yr amrywiaeth o destunau a drafodir – Y Glec Fawr – Y Cread a Duw – Siawns, Cynllun ac Angenrhaid – Darwin, DNA a Duw – Y Natur Ddynol – Credwn yn Nuw. Nid ar un darlleniad y gellir cael gafael ar hanfodion y testunau, er bod y cyflwyniad yn ofalus, cytbwys a disgybledig. Cydnabyddir yn deg bod mwy nag un ffordd o ymhel â'r deunydd. Mae manylder y llyfryddiaeth a'r mynegai yn brawf bod y llyfr yn ffrwyth ymchwil a dadansoddiad diwyd.

Roedd cyfarfod cyntaf (Medi 18fed) ein tymor newydd dan ofal dau o'n swyddogion. Seiliodd Cerian Angharad (cyd-ysgrifennydd) ei chyflwyniad ar ymholiadau ganddi parthed enwau dyfeiswyr, yn ferched a, gwell fyth, o Gymru. Er mawr gywilydd i fwyafrif y rhai oedd yn bresennol, methiant llwyr oedd ein hymdrechion i ateb cwestiynau a osododd Cerian. Er mwyn i chi gael blas ar y profiad, dyma enghreifftiau. A wyddoch fod Mary Anderson (1866-1953) wedi dyfeisio'r system at lanhau ffenestr flaen cerbydau? A wyddoch chi mai Marie Van Britton-Brown (1922-1999) fu'n gyfrifol am lunio cylched caeëdig teledu (CCTV)? Beth oedd camp Josephine Cochrane (1839 -1913)? Pa ferch (1946-2014) ddyfeisiodd y drefn 'galwad yn aros' ar eich teleffôn? Cewch yr atebion yn ein cyfarfod nesaf.

Aeth y drafodaeth i gyfeiriad diffiniad 'dyfais'. Ai rhywbeth sy'n adnabyddus yn gyhoeddus yw dyfais? Go brin, mae pob gwyddor yn dibynnu'n helaeth ar ddata, hynny yw, mesuriadau sy'n ffrwyth cyfarpar at bwrpas penodol. Mae'r cynnydd mewn gwyddoniaeth yn deillio o welliannau mewn cyfarpar a hynny'n aml yn digwydd oherwydd bod rhyw berson wedi gweld angen am ddull gwell o fesur. Fel arfer nid yw'n gwelliant hwn yn hysbys i'r cyhoedd.

Cafwyd yr ail gyfraniad gan Gadeirydd y Gymdeithas (Neville Evans) a rannodd ei brofiad o ddarllen llyfr Rowland Wynne (un o'n haelodau) yn dwyn y teitl *Evan James Williams –ffisegydd yr atom*. Anodd peidio â phentyrru ansoddeiriau canmoliaethus am yr athrylith hwn o bentref Cwmsychpant ger Llanbedr-pont Steffan. Ewch am dro i'r pentref i weld y plac sy ar gartref ei fagwraeth, Brynawel, sy dros y ffordd i fynwent y capel lle mae ei fedd. Ar wahan i gydweithio, ysgwydd-wrth-ysgwydd gyda chewri ffiseg perfeddion yr atom yn y ganrif ddiwethaf, cofir am EJ yn arloesi dull newydd, pan oedd ar secondiad, o geisio gwrthwynebu bygythiad brawychus y llongau tanfor Almaenig (U-boats). Gelwid y dull Ymchwil Gweithredol (Operations Research) gyda'i wreiddiau mewn ystadegaeth. Mae'r llyfr yn cyfeirio at y gwahaniaeth barn (ffyrnig ar brydiau) rhwng EJ a'i ddadansoddi cain ac eraill a ddadleuai mai mwy a mwy o fomio oedd y ffordd ymlaen. EJ a orfu. Ai dyfais oedd dull EJ?

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Hydref 16eg pan fyddwn yn trafod gwyddoniaeth cyfieithu. Dewch yn llu I Ystafell 077 ym mhrif adeilad y brifysgol. Mae digonedd o le parcio oddiar Park Place.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Croeso mawr i aelodau staff newydd yr ysgol! Dwy athrawes, sef Mrs Evans yn y dosbarth Derbyn a Mrs Spanswick ym Mlwyddyn 4. Hefyd dwy gynorthwywraig newydd – Mrs Thomas a Mrs Biggs. Gobeithio gewch chi yrfaoedd hir a hapus yng Ngarth Olwg!

Pob lwc i Hari Postlethwaite a Megan Mills – Prif swyddogion Tymor 1.

Diolch i Awen a Tomos am helpu i drefnu disgo Cymraeg i blant Blynyddoedd 5 & 6 ysgolion y clwstwr yn eu cyfarfod Pwyllgor Siarter Iaith.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Croesawyd 31 o blant bach newydd i'n dosbarth Meithrin ar fore cynta'r tymor. Ar ôl ambell ddeigryn cychwynnol mae pob un wedi setlo'n braf i'r ysgol ac yn hapus gyda Miss Davies yn nosbarth Sali Mali.

Ar ddiwedd tymor yr haf cafwyd gwasanaeth i ddiolch i'n cogyddes, Sandra Parfit am ei gwasaneth hir a ffyddlon wrth iddi ymddeol o'i gwaith ar ôl 30 mlynedd. Daeth Sandra i Gastellau yn 1987 a diolchwn iddi am baratoi cinio blasus i filoedd o blant dros y blynyddoedd.

Cafwyd gwasanaeth emosiynol iawn i ddod â'r flwyddyn i ben wrth i ni ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6. Diolch i'r holl athrawon am eu gwaith gyda'r dosbarth ac yn enwedig i Mr James am eu paratoi ar gyfer Ysgol Gyfun Garth Olwg. Pob lwc i chi gyd a chofiwch "gymryd pob cyfle!"

Rhai o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn cael hwyl ar draeth Langland ar ddiwedd blwyddyn o waith caled.

Prosiect adnewyddu Neuadd Llantrisant (Tudalen 11)

Cafwyd noson hyfryd o hel atgofion a phori drwy hen ffotos mewn aduniad o gyn ddisgyblion Ysgol Castellau. Braf oedd gweld Carol Minton nôl yn ein plith a hithau wedi gweithio a chael dylanwad ar gymaint o'r criw. 'Mae'r adeilad a'r cyfleusterau wedi newid llawer ond mae naws deuluol Castellau'n parhau', oedd y sylw.

Mick Antoniw, Aelod y Cynulliad am ardal Pontypridd yn cwrdd â Mathew, Sion, Emily, Olivia, Ellis a Daniel o'n Cyngor Ysgol fel rhan o'n gwaith i ddatblygu llais y plentyn yng Nghastellau. Ar âl i Mick esbonio natur ei waith roedd sawl un o'r criw â'u llygaid ar ei swydd rhyw ddiwrnod!

Ysgol Llanhari

Dechrau gwych i'r Cymhwysterau TGAU newydd

Mae'n rhaid dathlu yn Llanhari! Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU ardderchog eleni ac unwaith eto, penllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff yw'r canlyniadau TGAU. Dyma'r canlyniadau cyntaf mewn cyfres newydd o arholiadau ac rydym wrth ein bodd bod staff a disgyblion wedi llwyddo i gyrraedd y nod. Uchafbwynt eleni yw canlyniadau rhagorol yr adrannau Cymraeg a Saesneg lle llwyddodd 90% o'r disgyblion i ennill graddau A*-C mewn un neu ddwy o'r ieithoedd. Llwyddodd 93% o'r disgylbion i ennill graddau A*-C mewn pump neu fwy o bynciau ac fe gyrhaeddodd 100% o'r disgyblion y trothwy lefel 1. Wynebodd nifer o'r garfan hon heriau personol yn ystod eu cyfnod yng nghyfnod allweddol pedwar ac rydym yn ymfalchio bod cefnogaeth i ddisgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol. Dathlwn fel staff a rhieni bod y disgyblion wedi gwireddu eu potensial ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn datblygu ymhellach fel aelodau o'n chweched dosbarth ac yn adeiladu ar y llwyddiant arbennig hwn. Llongyfarchiadau gwresog i chi gyd!

Dathlu canlyniadau Safon Uwch

Braf iawn oedd gweld disgyblion y chweched dosbarth, staff a rhieni yn dathlu llwyddiant canlyniadau ardderchog Safon Uwch 2017 unwaith eto. Rydym yn hynod o falch bod 100% o'r disgyblion wedi cyrraedd y Trothwy Lefel 3 am yr ail flwyddyn yn olynol, gan amlygu bod staff a disgyblion wedi addasu'n llwyddiannus i'r newidiadau o ran cymhwysterau a chwricwlwm. Rydym yn hapus iawn bod 74% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill graddau A*-C mewn dau neu fwy o bynciau Safon Uwch. Dathlwn hefyd lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd eu potensial ac sydd wedi gweithio yn ddygn a chael eu haeddiant. Dyma'r garfan gyntaf o ddisgyblion i astudio y Fagloriaeth Gymreig yn Llanhari ac roedd y canlyniadau yn ardderchog, felly'n brawf o'r ffaith bod y disgyblion wedi elwa o fireinio amrywiaeth eang o sgiliau wrth weithio tuag at y Tystysgrif Sgiliau. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc fydd yn cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad.

Croeso nôl!

Braf oedd croesawu pawb nôl ym mis Medi a chroesawu ambell wyneb newydd i'n tîm o staff yn yr uwchradd a chynradd. Erbyn hyn mae gennym ddau ddosbarth yng Nghyfnod Allweddol Dau yn yr adran gynradd. Mae'r disgyblion i gyd wedi bod yn brysur yn ystod y dair wythnos gyntaf ac yn barod gwahoddwyd nifer o ymwelwyr i'r ysgol ac ymwelodd yr adran iau â Techniquest. Dysgwyd llawer gan Ms Azelle Geary, Nyrs yr Ysgol, am becynnau bwyd iach ac roeddem wrth ein bodd bod y nyrs wedi ymuno â ni ar ein milltir y dydd. Cafwyd llawer o hwyl yn Techniquest ac roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu am y corff ac yn arbrofi gyda'r offer yn y ganolfan wyddonol. Cychwynwyd hefyd ar y gwersi sy'n cael eu dysgu gan staff yr adran uwchradd sef Celf gyda Mr Edwards, Cerddoriaeth gyda Miss Phillips ac Addysg Gorfforol gyda Mr Roberts.

Jeans for Genes

Byddwn yn aml yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol a'r elusen gyntaf inni ei gefnogi yn ystod mis Medi oedd Jeans for Genes. Esgus gwych i beidio gorfod gwisgo gwisg ysgol am y dydd ac i godi arian i elusen teilwng iawn!

Llwyddiannau Chwaraeon

Yn ystod yr Haf daeth newyddion am lwyddiant dau unigolyn sef Ella Porter o flwyddyn 10 a James Hayward o flwyddyn 8. Â hithau ond yn 14 oed, mae Ella wedi ei dewis i garfan pêl-rwyd Cymru o dan 17. Tipyn o gamp! Enillodd James fedal arian yn taflu'r pwysau ym Mhencampwriaeth Cymru yn ystod yr Haf, Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch!

Siarter Iaith

Mae'r adran gynradd yn gweithio tuag at ennill statws Efydd y Siarter Iaith yn ystod yr hanner tymor yma o dan arweiniad Miss Elin Williams. Mae llawer o waith wedi ei wneud eisioes a bwriedir atgyfnerthu hyn yn ystod y tymor gyda'r Dreigiau Doeth yn chwarae rhan flaenllaw!

Gwobr Efydd Dug Caeredin

Diolch i Mr Colin Pari a Miss Sophie Wluka roi o'u hamser i arwain disgyblion blwyddyn 10 ar alldeithiau llwyddiannus y Wobr Efydd yn ystod mis Medi. Llongyfarchiadau i chi gyd!

Cefnogaeth Cwmni Lleol

Rydym yn hynod ddiolchgaer i gwmni lleol Worgan's am lenwi rhandir yr adran gynradd â phridd yn ystod y gwyliau haf. Rydym yn barod nawr i dyfu llysiau ac mae hyn wrth gwrs yn cyd-fynd â'n thema byw'n iach!

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Disgyblion yn cael eu canmol ar berfformiad TGAU

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg unwaith eto wedi cyflawni canlyniadau TGAU sy'n eu gosod ar lwybr o lwyddiant gydol oes. Mae'r ysgol yn falch o gyhoeddi bod disgyblion Garth Olwg wedi perfformio'n dda yn y set gyntaf o arholiadau TGAU newydd. Mae'r disgyblion wedi cyrraedd eu potensial ac mae'r canlyniadau'n galonogol iawn. Llwyddodd 67% o ddisgyblion i ennill 5 A*-C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg ac o ganlyniad i'r llwyddiant hyn mae gan Garth Olwg ganlyniadau gorau Rhondda Cynon Taf.

Mae'r cyrhaeddiad uchel ymhlith carfan sylweddol o'n disgyblion yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y disgyblion, staff, rhieni a gwarchodwyr. Ymhlith ein myfyrwyr sydd wedi gwneud yn rhagorol eleni mae:

Aled Williams – 10A*, 3A
Bethan Horscroft-Preest – 9A*, 4A
Jake Spencer – 7A*, 4A, 2B
Ieuan Davies – 6A*, 8A, 2B

Mae'r ysgol yn ymfalchïo bod llawer o'r disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r disgyblion hynny wnaeth sefyll yr arholiadau o dan amodau anodd, hefyd wedi sicrhau canlyniadau clodwiw.

Dywedodd Mr Edwards y Prifathro "Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion Blwyddyn 11 ar eu canlyniadau. Mae hyn yn dyst i'r holl waith caled gan y disgyblion a'r staff, ac hefyd cefnogaeth gadarn ein rhieni a'n gwarcheidwaid. Rydym wedi llwyddo i feithrin y sgiliau dwyieithog sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a hynny mewn cyfnod lle bu cymaint o newid yng ngofynion Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru. Yr wyf yn edrych ymlaen at groesawu nifer ohonynt yn ôl i'r chweched dosbarth, ac rwy'n falch iawn ein bod ni'n gallu cynnig ystod eang o gyrsiau a chymwysterau amrywiol."

Ysgol yn dathlu canlyniadau Lefel A

Mae'r canlyniadau eleni yn y cyrsiau Lefel A traddodiadol a'r cyrsiau galwedigaethol yn dangos llwyddiant wrth sicrhau cymwysterau Safon Uwch / Lefel A galwedigaethol a BTEC. Llwyddodd 97.6% o ddisgyblion i basio 2 Lefel A neu fwy a neu gymhwyster cyfatebol ac 82.2% wedi llwyddo i basio'r Fagloriaeth Gymreig. Ymysg disgyblion yr ysgol a oedd wedi sicrhau'r graddau uchaf eleni roedd:

Iwan Cavil, 2A * a 3A,
Gruffydd Lloyd 3A ac 1B,
Robbie Mears 3A* a 2A,
Jac Smith 4A,
Daniel Thomas 1A* a 4A

Mae ein disgyblion yn bwriadu astudio mewn nifer o brifysgolion gwahanol ar ystod eang o gyrsiau gradd, gan gynnwys prifysgolion fel Caerdydd, Caerfaddon a Lerpwl. Ymhlith y prifysgolion neu golegau eraill sydd wedi eu dewis gan ein disgyblion mae Aberystwyth, Bangor a Southampton. Dywedodd Prifathro Ysgol Gyfun Garth Olwg, Trystan Edwards: "Rydym yn falch iawn o lwyddiant ein myfyrwyr a braint oedd gweithio gyda nhw er mwyn eu cynorthwyo wrth gyflawni eu canlyniadau gwych. Mae cynifer ohonynt wedi gweithio mor galed ac maen nhw'n haeddu pob llwyddiant. Hoffwn ddiolch hefyd i'w rhieni, gwarchodwyr a theuluoedd, ynghyd â'n staff ymroddedig, am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r disgyblion. Rydym yn edrych ymlaen at ddilyn llwybrau ein myfyrwyr drwy'r brifysgol, gwaith neu addysg bellach, ac yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol."

Tennis

Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 11 am ddod yn ail mewn cystadleuaeth tennis ar draws De Cymru. Bu tîm merched blwyddyn 9 hefyd yn cystadlu a gwnaethant ddangos ymroddiad llwyr wrth ennill profiadau newydd mewn gemau heriol.

Ymweliad â'r Senedd

Bu aelodau o gyngor yr ysgol yn y Senedd ar gyfer sesiwn holi ac ateb ar y 18fed o Fedi i nodi 20 mlynedd ers datganoli. Cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau i'r Llywydd ar yr hyn oedd yn eu poeni. Holodd Ethan Williams, Blwyddyn 13 am y posibilrwydd o ostwng yr oedran pleidleisio i 16 a dywedodd Ellis Bishop, Blwyddyn 9 bod angen dysgu gwleidyddiaeth o flwyddyn 7 ymlaen mewn ysgolion – pwyntiau diddorol iawn fechgyn.

Awduron o fri

Enillodd Chloe Stacey, Blwyddyn 10 gystadleuaeth ysgrifennu Roald Dahl llynedd a daeth Emily Fullard Jones, Blwyddyn 9 yn ail ar draws Cymru gyfan. Cyrhaeddodd llond bocs o lyfrau yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ac roedd y ddwy wrth eu boddau i weld bod eu straeon wedi cael eu cyhoeddi.

Anghysondeb ac addewid yn nechrau tymor Ponty

Mae Clwb Rygbi Pontypridd wedi dechrau'r tymor newydd gyda record o ennill dwy a cholli dwy, a hynny'n adlewyrchu anghysondeb yn ei berfformiadau ond hefyd cryn dipyn o addewid am bethau gwell i ddod.

Bu newidiadau mawr o fewn y clwb dros yr haf, gyda'r hyfforddwr profiadol Justin Burnell yn dychwelyd a'r cyn chwaraewr Dan Godfrey yn etifeddu swydd rheolwr y tîm.

Gwireddwyd polisi o estyn allan i glybiau lleol i ddarganfod talentau newydd ifanc, gyda chwaraewyr dibrofiad fel y cefnwr Lloyd Rowlands o Benallta, y clo Josh Hawkins o Rydyfelin a'r prop Will Davies-King o Brifysgol Met Caerdydd yn ymuno â'r garfan.

Roedd yn anochel y byddai'r holl newidiadau yn cymryd peth amser cyn cynefino ac felly y bu.

Ar ôl dwy fuddugoliaeth yn erbyn Abercwmboi a Clifton mewn gemau cyfeillgar, yr her gyntaf yn yr Uwch-adran i Bontypridd oedd wynebu Bedwas ar Heol Sardis. Colli bu'r hanes o 27pt i 39, ond gellir rhoi'r canlyniad hwnnw yn ei gyd-destun o ystyried fod Bedwas wedi ennill tair gêm yn olynol i hawlio'r safle uchaf yn y tabl.

Teithiodd Ponty i gwrdd â Glyn Ebwy nesaf a sicrhau buddugoliaeth werthfawr o 6pt i 17, ond yna ildio'r momentwm wythnos yn ddiweddarach mewn gornest gyffrous ar faes Rodney Parade, gan golli o 29pt i 27 yn erbyn Casnewydd, a hynny mewn gêm y gellid fod wedi ei hennill.

Ddydd Sadwrn 16eg o Fedi y pencampwyr Merthyr oedd yr ymwelwyr i Heol Sardis a hynny gyda charfan hynod o gryf wedi ei phrynu gan fuddsoddiad y miliwnydd Sir Stan Thomas.

Yn gêm ddarbi'r cymoedd, ac o flaen torf sylweddol o dros 2,000, Pontypridd oedd yn drech o 42pt i 29 a hynny wedi perfformiad creadigol yn ail hanner y gêm, gan sgorio pum cais.

Mae'r tymor, yn ôl tystiolaeth y mis cyntaf, yn argoeli i fod yn un hynod o gystadleuol. Mae'r Uwch-adran wedi ei rhannu yn ddwy - dwyrain a gorllewin - am hanner cyntaf y tymor, cyn uno i un gynghrair yn y flwyddyn newydd.

Y nod i Bontypridd fydd cynnig profiad i'r garfan ifanc, a chyfle i ddysgu eu crefft, gan obeithio y gellir herio am lwyddiant yn y gynghrair ac yn y Cwpan Cenedlaethol.

Mae gwefan newydd sbon gan Glwb Pontypridd - www.ponty.net - felly galwch mewn i ddilyn hynt a helynt y garfan wrth i'r tymor ddatblygu.

Lansio Nofel Newydd Catrin Dafydd

Cyril Jones Catrin Dafydd a Catrin Beard



Mewn noson hwyliog gyda Neuadd Radyr yn orlawn lansiwyd GWALES - nofel newydd gan Catrin Dafydd, Gwaelod y Garth. Catrin Beard fu'n holi am gefndir y nofel a chafwyd darlleniadau gan Y Prifardd Cyril Jones.

Mae'n nofel gyffrous a deallus, wedi ei lleoli yng Nghymru y dyfodol agos, gan awdures brofiadol â llais unigryw. Mae Brynach Yang am orffen popeth. Ac mae'n mynd i'w wneud e. Heno. Ond beth fydd yn digwydd i Gymru wedyn? Mae ymgyrch Gwales ar fin dechrau ar siwrne gythryblus... a Brynach sy'n arwain y chwyldro...

Gwales gan Catrin Dafydd - Gwasg y Lolfa - £9.99

Canolfan Garth Olwg
Tymor yr Hydref
Gŵyl Llenyddiaeth Plant
Dydd Sadwrn, 28/10/2017, Am Ddim
Mwgsi
Drama gan Manon Steffan Ros
Nos Iau, 23/11/2017, 7:30pm, £6/£10
Cash
Teyrnged i Johnny Cash
Nos Wener, 24/11/2017, £12
Cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg
Ioga, Dosbarth Ioga pob safon
Pob Nos Lun, 6–7yh
Iwcs, dosbarth Ukulele
Pob Nos Lun, 7-9yh
Am wybodaeth bellach
Canolfan Gartholwg - 01443 570075
www.gartholwg.org llcreception@campwsgartholwg.org.uk
Facebook-Gartholwg Lifelong Learning Centre
Twitter@gartholwgllc